# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Presiding Officer's office, 4th floor – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 18 Tachwedd 2014** |
| Amser: | **08.30 – 08.46** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: Cofnodion Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Paul Davies**<br>**Jane Hutt**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes ddydd Mawrth a dydd Mercher.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 10 Rhagfyr 2014 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei ymchwiliad i'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma ar weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)

## 4 Deddfwriaeth

4.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Troseddu Difrifol

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Troseddu Difrifol.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg er mwyn iddo graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol erbyn dydd Iau 4 Rhagfyr 2014 er mwyn i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 9 Rhagfyr 2014.

4.2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â'r Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol er mwyn iddo graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol erbyn dydd Iau 8 Ionawr 2015 er mwyn i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 13 Ionawr 2015.

4.3 Llythyr gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Gorchymyn Adran 109

Nododd y Rheolwyr Busnes lythyr gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, gyda gwelliant drafft y Llywodraeth i'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wedi'i atodi.

4.4 Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol: Rhaglen Ddeddfwriaethol y DU ar gyfer 2014/2015

Nododd y Pwyllgor Busnes y papur sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr holl Filiau, a gyhoeddwyd yn Araith y Frenhines, sef biliau a gyflwynwyd yn Senedd y DU a biliau a gyhoeddwyd ar ffurf drafft, ar gyfer y pedwerydd sesiwn seneddol.

4.5 Bil Cymwysterau Cymru

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes eu penderfyniad, mewn egwyddor, ar 11 Tachwedd i gyfeirio'r Bil Addysg Uwch (Cymru) at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer ei ystyried yng Nghyfnod 1, a chytunwyd mai'r dyddiad terfyn i'r Pwyllgor adrodd ar y Bil yng Nghyfnod 1 fyddai 13 Mawrth 2015, a'r dyddiad terfyn ar gyfer cwblhau trafodion y Pwyllgor yng Nghyfnod 2 fyddai 15 Mai 2015.

4.6 Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes eu penderfyniad, mewn egwyddor, ar 11 Tachwedd i gyfeirio'r Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer ei ystyried yng Nghyfnod 1, a chytunwyd mai'r dyddiad terfyn i'r Pwyllgor adrodd ar y Bil yng Nghyfnod 1 fyddai 10 Ebrill 2015, a'r dyddiad terfyn ar gyfer cwblhau trafodion y Pwyllgor yng Nghyfnod 2 fyddai 5 Mehefin 2015.

## 5 Pwyllgorau

5.1 Cynnig i sefydlu Pwyllgor Cynulliad

Trafododd y Rheolwyr Busnes y cynnig i sefydlu Pwyllgor Cynulliad i ystyried amddiffyn plant rhag cael eu curo ar sail cosb resymol.

Nododd Gweinidog Busnes y Llywodraeth y byddai'n cyflwyno amserlen tair wythnos newydd o fusnes y llywodraeth i gynnwys cynnig i sefydlu Pwyllgor Cynulliad.

Nododd y Rheolwyr Busnes y byddai angen iddynt ystyried aelodaeth ac amserlen y Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol pe bai'r Pwyllgor yn cael ei sefydlu.

5.2 Dyddiadau ar gyfer toriadau'r Cynulliad yn 2015-16

Nododd Elin Jones yr hoffai i'r Pwyllgor ystyried cwtogi toriad y Nadolig o bedair wythnos i dair wythnos yn 2015. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o'r farn y dylid parhau gyda'r hen arfer a chael toriad o bedair wythnos o hyd.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddyddiadau toriad y Sulgwyn a thoriad yr haf ar gyfer 2015 a chytunwyd ar doriad hanner tymor yr hydref a thoriad y Nadolig ar gyfer 2015/16 (gweler isod).

| | **Dyddiadau** |
|---|---|
| **Hanner Tymor y Sulgwyn (1 wythnos)** | *Dydd Llun 25 Mai 2015 - dydd Sul 31 Mai 2015* |
| **Toriad yr Haf (8 wythnos)** | *Dydd Llun 20 Gorffennaf 2015 - dydd Sul 13 Medi 2015* |
| ***Hanner Tymor yr Hydref** (1 wythnos) | *Dydd Llun 26 Hydref 2015 - dydd Sul 1 Tachwedd 2015* |
| ***Toriad y Nadolig** (4 wythnos) | *Dydd Llun 14 Rhagfyr 2015 - Dydd Sul 10 Ionawr 2016* |

***Dyddiadau dros dro i'w cadarnhau gan y Pwyllgor Busnes.**

**Unrhyw fater arall**

Rhoddodd Gweinidog Busnes y Llywodraeth wybod i'r Pwyllgor Busnes am ddau Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol arall sy'n debygol o gael eu gosod yr wythnos hon, un ar y Bil Dadreoleiddio mewn perthynas â darpariaethau pysgota anarferedig, ac un arall ar y Bil Arloesedd Meddygol.